



CYNLLUN EIN DYFODOL OUR PLAN FOR THE FUTURE

MANIFFESTO IEUENCTID GWLEDIG CFFI CYMRU WALES YFC RURAL YOUTH MANIFESTO

Mae 2026 yn nodi 90 mlynedd ers sefydlu ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Am naw degawd, rydym wedi bod yn llais cyson a diwyro pobl ifanc gwledig ledled Cymru, gan ymrwymo i rymuso ac eirioli dros y genhedlaeth nesaf o gyfranwyr gwledig. Mae'r Maniffesto hwn yn ddatganiad o'n hymrwymiad i ddyfodol ein haelodau a'r cymunedau y maent yn eu cynnal. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud buddsoddiad hanfodol, gan sicrhau bod gan ein pobl ifanc ddyfodol cryf a hyfyw – un sy'n caniatáu iddynt aros yn eu cymunedau gwledig, sicrhau cyflogaeth ystyrlon, cael mynediad at wasanaethau hanfodol, a chyfrannu'n llawn at wead cymdeithasol, economaidd a diwylliannol bywyd gwledig. Rydyn ni eisiau gwarantu bod y 90 mlynedd nesaf yn gweld ein hardaloedd gwledig nid yn unig yn goroesi, ond yn ffynnu.

Angharad Thomas, Cadeirydd CFFI Cymru, 2025–2026

2026 proudly marks the 90th anniversary of the Wales federation of Young Farmers' Clubs (Wales YFC). For nine decades, we have been the consistent and unwavering voice of rural young people across Wales, committed to empowering and advocating for the next generation of rural contributors. This Manifesto is a declaration of our commitment to the future of our members and the communities they sustain. We call upon the Welsh Government to make a crucial investment, ensuring our young people have a strong and viable future – one that allows them to remain in their rural communities, secure meaningful employment, access essential services, and contribute fully to the social, economic, and cultural fabric of rural life. We want to guarantee that the next 90 years see our rural areas not just surviving but thriving.

Angharad Thomas, Wales YFC Chair, 2025–2026

CFFI Cymru yw llais pobl ifanc wledig Cymru – pobl sy'n byw, gweithio ac yn cyfranogi yn ein cymunedau cefn gwlad. Rydym ni'n genhedlaeth falch o ffermwyr, entrepreneuriaid ac arweinwyr lleol. Rydym ni'n credu mewn dyfodol teg, cynaliadwy, a bywiog i Gymru wledig.

Wales YFC is the voice of rural young people – those who live, work, and participate in our countryside. We are the next generation of farmers, entrepreneurs, and community leaders. We believe in a fair, sustainable, and thriving future for rural Wales.

1 LLAIS Y IFANC / A VOICE FOR RURAL YOUTH

- Rhoi llais go iawn i bobl ifanc wrth lunio polisiau gwledig — yn lleol ac yn genedlaethol.
 - Sefydlu llwybrau ymgynghori ffurfiol rhwng CFFI Cymru a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
 - Datblygu strategaethau tymor hir sy'n edrych y tu hwnt i gylchoedd etholiadol.
 - Nid dyfodol yn unig yw pobl ifanc wledig — rydym ni'n bresennol, ac mae'n bryd gwrando arnom ni.
-
- Give young people a real say in shaping rural policy — locally and nationally.
 - Establish formal consultation routes between Wales YFC and decision-makers.
 - Develop long-term strategies that look beyond election cycles.
 - Rural youth are not just the future — we are the present, and it's time we were heard.

2 GWAITH TEG A DYFODOL IAWN / FAIR WORK AND REAL FUTURES

- Creu cyfleoedd gyrfaol ystyrlon yng nghefn gwlad Cymru — mewn amaeth, twristiaeth, technoleg werdd ac ynni adnewyddadwy.
 - Gwella mynediad at brentisiaethau a hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc.
 - Cefnogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr gyda mynediad teg at dir, cyllid a chymorth realistig.
 - Cydnabod cyfraniad ffermydd teuluol i economi, diwylliant ac amgylchedd Cymru.
-
- Create meaningful career opportunities in rural Wales — in agriculture, tourism, green tech, and renewable energy.
 - Improve access to apprenticeships and vocational training for young people.
 - Support the next generation of farmers with fair access to land, finance, and realistic support schemes.
 - Recognise the contribution of family farms to Wales's economy, culture, and environment.

3 AMAETH A DYFODOL CYMRU WLEDIG / FARMING & THE FUTURE OF RURAL WALES

- Diogelu dyfodol amaeth yng Nghymru gyda masnach deg, trethiant teg, a chynlluniau cymorth realistig.
 - Sicrhau bod polisiau newydd (gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn ymarferol ac yn cael eu llunio gyda ffermwyr.
 - Hyrwyddo ffermio cynaliadwy ac arloesol sy'n diogelu'r amgylchedd ac yn bwydo'r genedl.
 - Annog pobl ifanc i mewn i amaeth drwy fentora, arloesi a mynediad at dir.
 - Sicrhau bod treth etifeddiaeth yn deg l ffermydd teuluol, gan gefnogi parhad busnesau amaethyddol rhwng cenedlaethau
 - Gweithredu strategaeth gadarn l reoli a diley TB mewn gwartheg gan sicrhau cefnogaeth ffermwyr drwy brofion, iawndal teg a chydweithio â milfeddygon.
-
- Secure the future of Welsh farming with fair trade, fair taxation, and practical support schemes.
 - Ensure new policies (including SFS) are workable and co-designed with farmers.
 - Promote sustainable, innovative farming that protects our environment and feeds our nation.
 - Encourage young entrants into agriculture through mentoring, innovation, and access to land.
 - Ensure inheritance tax is fair for family farms, supporting the continuity of agricultural businesses across generations.

- Implement a robust strategy to control and eradicate TB in cattle, ensuring support for farmers through testing, fair compensation and collaboration with veterinarians.

4

IECHYD MEDDWL A LLES / MENTAL HEALTH AND WELLBEING

- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl gwledig yn hygyrch, gweledol ac wedi'u hariannu'n iawn.
- Darparu mwy o gymorth i bobl ifanc sy'n profi unigrwydd, straen neu fwlio.
- Hyrwyddo sgwrs agored a lleihau stigma o amgylch iechyd meddwl.
- Cydnabod bod lles yr un mor bwysig â chynhyrchiant mewn bywyd gwledig.
- Ensure rural mental health services are accessible, visible, and well-funded.
- Provide more support for young people facing isolation, stress, or bullying.
- Promote open conversations and reduce stigma around mental health.
- Recognise that wellbeing is just as important as productivity in rural life.

5

CYMUNEDAU BYWIOG / VIBRANT COMMUNITIES

- Diogelu gwasanaethau hanfodol lleol — banciau, meddygfeydd, swyddfeydd post a siopau.
- Diogelu ein pentrefi ac ysgolion gwledig.
- Buddsoddi mewn mannau cymunedol, clybiau ieuenctid a chanolfannau gwledig sy'n dod â phobl at ei gilydd.
- Cefnogi diwylliant Cymreig a'r iaith fel calon hunaniaeth wledig.
- Annog cymunedau cynhwysol a chroesawgar i bawb sy'n dewis byw yng nghefn gwlad Cymru.
- Cefnogi nos Llywodraetg Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan hyrwyddo cyfleoedd i bobl Ifanc ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau a'u bywydau bob dydd.
- Protect essential local services — banks, GP surgeries, post offices, and shops.
- Protect our rural villages and schools.
- Invest in community spaces, youth clubs, and rural hubs that bring people together.
- Support Welsh culture and language at the heart of rural identity.
- Encourage inclusive, welcoming communities for everyone who chooses to live in rural Wales.
- Support the Welsh Government's goal of one million Welsh Speakers by 2050, promoting opportunities for young people to use the language in their communities and daily lives.

6

CARTREFI I BOBL LEOL / HOMES FOR LOCAL PEOPLE

- Mynd i'r afael â'r argyfwng tai sy'n prisio pobl ifanc allan o'u cymunedau eu hunain.
- Blaenoriaethu cynlluniau tai fforddiadwy a chynlluniau prynwyr tro cyntaf i drigolion lleol.
- Cefnogi datblygiadau dan arweiniad cymunedau sy'n diwallu anghenion gwirioneddol.
- Sicrhau bod y dreth gyngor a gwasanaethau lleol yn deg ac yn adlewyrchu realiti gwledig.
- Tackle the housing crisis that prices young people out of their own communities.
- Prioritise affordable housing and first-time buyer schemes for local residents.
- Support community-led housing that meets genuine local need.
- Ensure council tax and local services are fair and reflect rural realities.

- Darparu trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy sy'n cysylltu cymunedau gwledig.
- Cefnogi opsiynau teithio diogel a chynaliadwy i bobl ifanc.
- Diweddu'r eithrio digidol — dylai pob cartref a busnes gwledig gael band eang a signal symudol da.
- Cydnabod bod cysylltedd digidol yn hanfodol ar gyfer gwaith, addysg a lles.
- Deliver reliable and affordable public transport that connects rural communities.
- Support safe, sustainable travel options for young people.
- End digital exclusion — every rural home and business deserves fast broadband and mobile coverage.
- Recognise that good connectivity is essential for work, education, and wellbeing.

EIN GWELEDIGAETH / OUR VISION

Cymru lle gall pobl ifanc fyw, gweithio a ffynnu yn y cymunedau a'u magodd.
Cymru sy'n gwerthfawrogi ei chalon wledig – nid fel cerdyn post, ond fel cenedl fyw a gweithgar.
Cymru sy'n gwrandao ar ei phobl ifanc ac yn buddsoddi yn eu dyfodol.

Ni yw CFFI Cymru. Ni yw llais ieuenctid gwledig Cymru.

A Wales where young people can live, work, and thrive in the communities that raised them.
A Wales that values its rural heart — not as a postcard, but as a living, working nation.
A Wales that listens to its young people and invests in their future.

We are Wales YFC. We are the voice of rural youth.

DILYNWCH NI | FOLLOW US

CFFI Cymru Wales YFC

@cfficymruwalesyfc

